Adroddiad i'r: Pwyllgor Cynllunio

Dyddiad y Cyfarfod: 12 Gorffennaf 2017

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Hugh Evans / Angela Loftus

Awdur yr Adroddiad: Angela Loftus

Teitl: Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych: Adroddiad Adolygu Drafft a Chytundeb Darparu Drafft – ymgynghori arfaethedig

## 1. Am beth y mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r amserlen a'r broses ar gyfer datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych. Y cam cyntaf yn y broses yw drafftio Adroddiad Adolygu a ddylai fynd allan i ymgynghori arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw tynnu sylw at faterion fel unrhyw newid i ddeddfwriaeth a chanfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol fydd yn goleuo'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd; nid pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw cynnig newidiadau i bolisi neu ddyraniadau yn y cam hwn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Adroddiad Adolygu drafft y Cynllun Datblygu Lleol a gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'n rhoi cyfle i Aelodau wneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft a chynnig diwygiadau er mwyn goleuo'r drafft yn barod i ymgynghori arno. Bydd cyfle hefyd i Aelodau a'r cyhoedd roi mewnbwn fel rhan o'r broses ymgynghori. Dogfen strategol yw Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 -2021 ac mae'n offeryn pwysig ar gyfer darparu'r Cynllun Corfforaethol a nifer o strategaethau eraill gan y Cyngor fel y Strategaeth Uchelgais Cymunedol ac Economaidd a'r Strategaeth Dai. Mae felly'n bwysig sicrhau bod gennym fframwaith polisi cynllunio effeithiol a diweddar i'r Sir i gyfrannu at ddarparu blaenoriaethau corfforaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 **Bod Aelodau'n cymeradwyo Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (amgaeedig fel Atodiad 2), a hefyd i gyd-fynd â hynny, y Cytundeb Darparu drafft, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd a diweddariad y Papurau Gwybodaeth Gefndir ar gyfer ymgynghori.**

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Mae Adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Lleol wedi'u dyfeisio i sicrhau bod y cynlluniau mabwysiedig yn cael eu diweddaru, yn cyd-fynd â'r darpariaethau cyfreithiol diweddaraf ac yn aros yn berthnasol i fynd i'r afael ag amcanion a materion lleol. Rhoddir canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar gynhyrchu ac adolygu Cynlluniau

Datblygu Lleol yn y ‘Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol’. Mae’r llawlyfr yn nodi tri pheth yn bennaf a allai ysgogi Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl):

- Newid cyd-destunol sylweddol (e.e. i bolisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol); mewn cyd-destun lleol e.e. cau safle cyflogaeth pwysig sy’n tanseilio’r economi leol.
- Pryderon sylweddol yn codi o ganfyddiadau’r Adroddiad Monitro Blynyddol o ran effeithiolrwydd polisi, lefel y cynnydd ac unrhyw broblem gyda gweithredu’r Cynllun; neu
- Mae Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 yn nodi fel a ganlyn: *‘...rhaid i’r Awdurdod Cynllunio Lleol ddechrau adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd o leiaf ers ei fabwysiadu gyntaf;...*Cafodd CDLl Sir Ddinbych ei fabwysiadu ar 4 Mehefin 2013 ac ar sail cyngor Llywodraeth Cymru dylid dechrau ei adolygu yn 2017 er mwyn cwrdd â’r gofyniad cyfreithiol hwn.

4.2 Mae ystod o ddeddfwriaeth newydd a diwygiedig sydd wedi dod i rym ers mabwysiadu CDLl Sir Ddinbych yn 2013. Y rhai mwyaf amlwg yw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gynllunio (Cymru) 2015. Bydd angen adolygu’r CDLl i weld a yw’n cydymffurfio â deddfwriaeth sylfaenol a gallai fod angen gwneud newidiadau i adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth fwy diweddar. Lluniwyd polisïau’r CDLl yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5) sydd wedi’i ddisodli sawl gwaith (Rhifyn 9 yw’r un diweddaraf i gael ei gyhoeddi) gyda Nodiadau Cyngor Technegol newydd neu ddiwygiedig i gyd-fynd â fo.

4.3 Ystyriaethau pwysig yw dyddiad diweddu’r Cynllun (2021) a bod angen cadw pum mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai. Daw’r CDLl i ben ym Mehefin 2012 a bydd cynllunio ar gyfer CDLl i’w olynu’n helpu i sicrhau parhad gyda chynnal fframwaith polisi cynllunio i dywys penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae Aelodau’n ymwybodol nad oes gan Sir Ddinbych, yn ‘dechnegol’ ar hyn o bryd, gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, fel sy’n ofynnol yn Nodyn Cyngor Technegol 1. Mae un Adroddiad Monitro Blynyddol ar ôl y llall o CDLl Sir Ddinbych wedi tynnu sylw at hyn. Bydd yn rhaid i’r Cyngor weld sut i fynd i’r afael â hyn yng ngoleuni rhagolygon cartrefi diweddaraf Llywodraeth Cymru.

4.4 Y cam cyntaf yn y broses yw llunio Adroddiad Adolygu. Pwrpas yr Adroddiad Adolygu ar y CDLl yw tynnu sylw at bolisïau lleol neu elfennau eraill o’r CDLl mabwysiedig a ddylai, ym marn y Cyngor, gael eu hadolygu ac efallai eu diwygio. Nid yw’r Adroddiad Adolygu’n nodi’r union ddiwygiadau. Mae Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 yn nodi bod yn rhaid i’r Cyngor gymeradwyo’r Adroddiad Adolygu drwy benderfyniad cyn cyflwyno’r ddogfen i Lywodraeth Cymru. Rhaid i’r Cyngor hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu cyn cadarnhau’n derfynol a chyflwyno’r ddogfen i Lywodraeth Cymru. Mae’r adroddiad hwn yn gofyn caniatâd gan y Pwyllgor Cynllunio i wneud yr ymgynghori hwn.

4.5 Yn fyr, mae Adroddiad Adolygu drafft y CDLl wedi’i strwythuro i nodi’n glir yr hyn a ystyriwyd; a lle y mae newidiadau’n debygol o fod eu hangen, ynghyd â’r rhesymau, ar sail y dystiolaeth.

4.6 Bydd Cytundeb Darparu drafft i gyd-fynd â'r Adroddiad Adolygu drafft. Mae hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn mynd ati i gynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych. Mae'r Cytundeb Darparu drafft yn rhoi manylion am y gwahanol gamau yn y broses a sut a ble y gall pobl gymryd rhan ynddi.

4.7 Mae dwy ran yn bennaf i'r Cytundeb Darparu:

- Yr Amserlen; mae hon yn rhoi'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Arfarniad Cynaliadwyedd cysylltiedig.
- Cynllun Cynnwys y Gymuned: mae hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned; gyda phwy, sut a phryd y bwriadwn ymgysylltu a sut y bydd y Cyngor yn ymateb i sylwadau.

4.8 Yn ogystal bydd diweddariad ar y Papurau Gwybodaeth drafft ar bob Thema yn y CDLl yn nodi unrhyw newid polisi neu ddeddfwriaeth ynghyd â chanfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y thema honno; drafftiwyd diweddariad ar yr Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd fydd hefyd ar gael i wneud sylw arnynt ynghyd ag ar yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Darparu drafft.

4.9 Os bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cymeradwyo, bwriedir ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol fel rhan o gynhyrchu Adroddiad Adolygu terfynol y CDLl am wyth wythnos rhwng Awst – Medi 2017, cyn cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2017. Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi'i chymeradwyo, bydd y gwaith ffurfiol ar y CDLl newydd yn dechrau. Rhoddir amserlen yn Atodiad 1 yn nodi'r prif gamau o gynhyrchu'r CDLl newydd, gyda dyddiadau dangosol. Drafft cyntaf yw hwn a diau y bydd angen ei ddiwygio'n dilyn ymgynghori dros y misoedd nesaf.

4.10 Yn dilyn ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu, byddwn yn adrodd i'r Aelodau ar unrhyw sylwadau ac ar ag unrhyw newid sy'n ofynnol ei wneud yng ngoleuni'r sylwadau hynny. Bydd gan Grŵp Llywio Aelodau'r CDLl rôl bwysig i'w chwarae yn y broses ac yn cefnogi a goruchwylio'r gwaith fydd yn dilyn o ddatblygu'r CDLl newydd. Mae gwaith ar y gweill i ddiweddaru'r dystiolaeth a'r wybodaeth sylfaenol fydd yn goleuo'r broses o ddatblygu'r CDLl newydd. Bwriedir adrodd ar y dystiolaeth ddiweddaraf i'r Aelodau fel y bydd yn cael ei chwblhau. Byddwn hefyd yn cyflawni asesiad manwl o'r costau posib dros y misoedd nesaf.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Y Blaenoriaethau Corfforaethol perthnasol yw:

- Datblygu'r economi leol
- Sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol â phosib
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da
- Moderneiddio'r Cyngor
- Strydoedd glân a thaclus

## 6. Faint y bydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am ganiatâd i ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu a bydd y gost o wneud hyn yn dod o'r gyllideb bresennol. Bydd y gost o gyflawni'r

Adolygiad ac o gynhyrchu CDLl newydd yn cael ei hasesu'n fanwl dros y misoedd nesaf. Mae cyllideb ar gyfer adolygu'n cael ei chronni'n flynyddol ac ar gael i wneud y gwaith.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gallwch lawrlwytho'r adroddiad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Les o'r wefan a dylai fod yn amgaeedig fel atodiad i'r adroddiad.

Bydd Asesiad parhaus o'r Effaith ar Les yn goleuo'r broses o ddatblygu'r CDLl newydd, ynghyd â'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i wneud ar y cynnig i ymgynghori ar y Cytundeb Darparu drafft ac roedd ei gasgliadau, fwy neu lai, yn niwtral neu'n gadarnhaol. Mae'r Cytundeb Darparu drafft yn nodi amserlen ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori a hefyd sut y bydd hyn yn digwydd. Bwriedir ymgynghori ar y ddogfen ei hun. Bydd llawer o'r canlyniadau'n dibynnu ar natur yr hyn yr ymgynghorir arno ond nod y Cytundeb Darparu drafft yw sicrhau bod pawb yn cael dweud ei ddweud ac yn derbyn ymateb i'w sylwadau.

8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Bwriedir ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd ar yr Adolygiad o'r CDLl ac ar ddatblygu Cynllun newydd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd y gost o gyflawni'r Adolygiad ac o gynhyrchu CDLl newydd yn cael ei hasesu'n fanwl dros y misoedd nesaf.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r Cytundeb Darparu drafft yn Atodiad H i'r Adroddiad Adolygu'n cynnwys asesiad risg manwl. Yn gryno, mae'r prif risgiau'n cynnwys adnoddau staff, newid i ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ac oedi gyda'r amserlen oherwydd ymateb annisgwyl o uchel i'r ymgynghoriad neu ddiffyg consensws. Mae'r Cytundeb Darparu drafft yn cynnwys elfen o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer oedi annisgwyl a bydd gwaith cynllunio prosiect trylwyr yn helpu i leihau'r risgiau hyn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Deddf Gynllunio (Cymru) 2015

Atodiad 1

| Adolygiad o'r CDLl / CDLl Newydd – y prif gamau | | |
|---|---|---|
| Cam | Prif bwrpas / manylion | Amserlen ddangosol |
| Adroddiad yr Adolygiad | • Nodi pa rannau o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd angen eu diwygio.<br>• Cyhoeddi'r papurau gwybodaeth gefndir (rhan o'r dystiolaeth)<br>• Cymeradwyo'r ddogfen ddrafft ar gyfer ymgynghori arni<br>• Ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr adroddiad<br>• Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Mehefin – Rhagfyr 2017 |
| Cytundeb Darparu | • Datblygu amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.<br>• Datblygu Cynllun Cynnwys y Gymuned yn nodi egwyddorion y broses o ymgysylltu â'r gymuned.<br>• Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y Cytundeb Darparu.<br>• Cyflwyno i Lywodraeth Cymru | Mehefin – Rhagfyr 2017 |
| Gwaith Cyn Adneuo | • Adolygu gweledigaeth a strategaeth y CDLl ac asesu opsiynau eraill.<br>• Adolygu polisïau allweddol.<br>• Adolygiadau dyraniadau safle.<br>• Cyhoeddi'r strategaeth ddrafft. | Rhagfyr 2017 – Medi 2018 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgynghori â'r Cyhoedd ar y Ddogfen Cyn Adneuo | • Fel rhan o'r cam cyn adneuo, ymgynghori â'r cyhoedd ar yr Opsiynau Strategol, y Weledigaeth, y Strategaeth a Ffafrir newydd ac ar bolisïau / dyraniadau newydd. | Hydref 2018 – Ebrill 2019 |
| Ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol Adnau | • Paratoi a chyhoeddi polisïau manwl a map cynigion diwygiedig<br>• Ymgynghori â'r cyhoedd ar y ddogfen adnau am 6 wythnos. | Mai – Tachwedd 2019 |
| Cyflwyno'r CDLl i'w Archwilio | • Cyflwyno'r Cynllun newydd a'r dystiolaeth ategol i'r Arolygiaeth Gynllunio. | Gwanwyn 2020 |
| Archwilio | • Arolygydd annibynnol yn asesu cadernid y Cynllun.<br>• Derbyn adroddiad yr Arolygydd. | Hydref 2020 |
| Mabwysiadu | • Y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun ac yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau cynllunio. | Gwanwyn 2021 |
| Adroddiad Monitro Blynyddol | • Parhau i fonitro darparu ac effeithiolrwydd y CDLl a chyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. | Yn flynyddol – ei gyflwyno ym mis Hydref pob blwyddyn |